Cofnodion cyfarfod 14 Mawrth 2017 a gynhaliwyd yng Nghapel Bethania am 7 yn yr hwyr.		
PRESENNOL		
Lena Ashley	Daniel Williams	
Nerys John	Casi Roberts	
Gruff John	Sarah Riley	
Mair Bebb Jones	Iestyn Harris	
	George Smith	
Wynne Barton - Swyddog Ariannol	Cynghorydd Sir - Gareth Griffiths	
1.0	**GEIRIAU AGORIADOL Y CADEIRYDD AC YMDDIHEURIADAU**	
1.1	Croesawyd yr aelodau gan Gadeirydd i gyfarfod mis Mawrth. **Ymddiheuriadau**: Peter Simpson, Aled Emyr. Dangoswyd parch i'r diweddar Steven Mc Guinness gydag ennyd o ddistawrwydd.	
2.0	**ADRODDIAD Y CYNGHORYDD**	
	Dywedodd y Cynghorydd Sir bod ei adroddiad yn ymwneud a materion oedd yn effeithio trigolion y pentref o ddydd i ddydd fel baw ci, sbwriel, gwagio biniau ac yn y blaen. Roedd wedi derbyn cwynion a hefyd wedi sylwi bod trafferth sbwriel yn y pentref ar ôl diwrnod casglu a'i fod mewn cysylltiad gyda'r gwasanaeth casglu. Roedd hefyd am ofyn i'r aelodau i feddwl am y mater; dywedodd bod Partneriaeth Bethesda yn cyflogi person i ymwneud a sbwriel. Gyda threfn newydd o fewn maes parcio'r ysgol mae problemau bellach ar y ffordd, gobeithir cael cyfarfod ar y safle gyda swyddogion traffig Cyngor Gwynedd. Mae'r drefn newydd i sicrhau diogelwch y plant a bydd asesiad risg yn cael ei gwblhau yn fuan gan Gyngor Gwynedd. Mae archwiliad i faterion parcio ar Stryd Bangor yn parhau. Dywedodd hefyd ei fod wedi arsylwi bod problem gyda'r wal gynnal ger Llwybr Brynffynnon ger y tai teras, mae'n debyg bod symudiad wedi bod yn wal. **Y Clerc i ysgrifennu at Gyngor Gwynedd ynglŷn â chasglu'r bocsys glas ynglŷn â'r effeithiolrwydd, "False economy a mwy o gostau i wneud o weithio."**	**CLERC**
3.0	**DATGAN DIDDORDEB**	
	Dim	
4.0	**COFNODION**	
4.1	Cyflwynwyd cofnodion 14 Chwefror 2017. **Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir wedi fan newidiadau i eitemau 7.1 a 7.2.**	
5.0	**MATERION YN CODI**	
5.1	**Hysbysfyrddau** -. Dal i ddisgwyl pris am y gwaith o osod yr hysbysfwrdd ger y doc.	
5.2	**Toiledau** - dim fwy o wybodaeth i law.	

5.3	**Llwybr Cerrig yr Afon** - trafodwyd y mater o blannu coed, ond cyn gall hyn gael ei wneud roedd angen trafod a'r perchennog tir. Aelodau o'r Cyngor am gysylltu â'r perchennog.	
5.4	**Cofrestr Newidiadau Materion sy'n Codi - Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd** - dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi astudio'r ddogfen a bod dim materion yn codi o ddiddordeb i'r Felinheli.	
6.0	**ADRODDIAD IS-BWYLLGOR Y NEUADD**	
6.1	Rhoddodd y Cadeirydd adroddiad byr ynglŷn â materion y Neuadd. Dal i ddisgwyl pris am y gwaith i'r "proseniwm arch". Mae angen gwaith cynnal i'r blinds o fewn y Neuadd. Gwaith ar y simdde wedi ei gwblhau. Bydd archwiliad Peter Wray o'r Neuadd yn costio £350 a disgwylir i hyn gael ei gynnal un ai dydd Iau neu Wener yr wythnos hon. Bydd y Cadeirydd yn ei gyfarfod dydd Llun. Bydd Peter Wray hefyd yn defnyddio'r sgaffald sydd yno i archwilio'r to; mae'r adeiladwr yn fodlon iddo ddefnyddio'r sgaffald. Bydd y Cadeirydd hefyd yn gadael i bensaer y Neuadd wybod bod y Cyngor am gael adroddiad annibynnol ynglŷn â'r tamp o fewn y Neuadd.	
7.0	**CADARNHAU GWARIANT MIS BLAENOROL A'R ADRODDIAD**	
7.1	Cadarnhawyd gwariant mis Chwefror a derbyn yr adroddiad misol.	
7.2	Dywedodd y Swyddog Ariannol ei fod wedi mynychu seminarau o fewn y mis ynglŷn â rheoli cyllid a threfn lywodraethol a chynllun llywodraeth leol.	
7.3	Cyflwynodd y Swyddog Ariannol fanylion taliadau casglu sbwriel o'r fynwent am y flwyddyn i ddod. Mae'r casglu yn digwydd bob bythefnos ar hyn o bryd, cost y llynedd oedd £776 ac eleni bydd yn £844. Hefyd rhoddodd eglurhad ynglŷn â thalu treth ar y Neuadd o eleni ymlaen, y gost fydd £1497.	
7.4	Cyflwynodd y Swyddog Ariannol Gyllideb Drafft newydd i gydnabod codiad yn y cyfraniadau (cymorth ariannol) i gyrff elusennol y pentref a hefyd y Dreth Cyngor ar y neuadd.	
7.5	Cyflwynodd y Swyddog Ariannol Daflen Gymhariaeth rhwng y Gyllideb drafft a'r gwariant hyd nes 28 Chwefror 2017.	
8.0	**GOHEBIAETH**	
8.1	**Gwydrwch Cymunedol** - dywedodd y Clerc bod gohebiaeth wedi dod i law mewn dull	

	holiadur ynglŷn â chynllunio argyfwng a hefyd a fyddai'r Cyngor yn hoffi ymweliad gan swyddog i gyflwyno fwy o wybodaeth ynglŷn â'r gwasanaeth.	
8.2	**Corbet Bay Boat Park** - cafwyd eglurhad gan y Cynghorydd Casi Roberts ynglŷn â bodolaeth y parc a bellach bod rhai o berchenogion y cychod wedi derbyn gwybodaeth bod cost o £20 y flwyddyn i gadw cwch. Y Clerc i wneud ymholiadau gyda Barry Davies Cyngor Gwynedd.	
8.3	**Cymdeithas Edward Llwyd** - cafwyd ymholiad gan y gymdeithas ynglŷn a os byddai rhywun yn gallu cynnal taith lwybrau o amgylch y Felinheli iddynt. Y Clerc i anfon atynt i ddweud bod taith wedi ei drefnu gan Gareth Lewis.	**CLERC**
8.4	**Lladd Gwair** - cafwyd trafodaeth ynglŷn â thorri gwair o fewn y pentref. Nid oedd gwybodaeth i law oddi wrth Gyngor Gwynedd i'r dyddiadau pa bryd byddai'r gwaith yn cael ei wneud. Llynedd roedd dau doriad yn unig ag roedd rhai lleoliadau wedi gordyfu. Llynedd roedd Gŵyl y Felin wedi trefnu i godi'r gwair wedi toriad ychwanegol gan y Cyngor ar Lan y Môr.	
8.5	**Asesiad Llesiant Gwynedd a Môn** - Gwybodaeth yn unig.	
8.6	**Arolwg 2018 o Etholiadau Seneddol yng Nghymru** - Gwybodaeth yn unig	8.6
8.7	**Grid Cenedlaethol** - Ymateb wedi sylwadau Cyngor Cymuned y Felinheli ar y cyd gyda Chyngor Cymuned Pentir.	
8.8	**Clwb Peldroed Ieuenctid** - Llythyr o ddiolch yn cydnabod y cyfraniad ariannol.	
9.0	**ADRODDIAD COFEB Y CLOC**	
	Gwaith ail leoli'r goleuadau wedi digwydd ond mae'r cysgodion yn well ond dal i guddio'r wyneb ac yn amharu ar ddangos yr amser, bydd angen cael "defusers".	
10.0	**CEISIADAU CYNLLUNIO**	
10.1	C17/0235/20/LL - codi estyniad un llawr ochr - Tyddyn Lydia Tan y Maes Y Felinheli LL56 4UQ - **DIM GWRTHWYNEBIAD**	
11.0	**ADRODDIAD IS-BWYLLGOR Y FYNWENT**	
11.1	Adroddwyd bod pridd bellach wedi i roi yn y bocs. Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi archwilio maint cerrig beddi claddu llwch a bod y rhain yn amrywio. **Y Clerc i sicrhau bod ymgymerwyr angladdau yn cael y wybodaeth am reolau maint cerrig beddi.**	**CLERC**
12.0	**ADRODDIAD IS-BWYLLGOR MAES PARCIO,**	

	LON LAS A SAFLE MORIAH	
12.1	Daeth gwybodaeth i law beth oedd rhywogaeth y lafant. Cafwyd hefyd amcan bris planhigion newydd. Penderfynwyd cael fwy o wybodaeth ynglŷn â phlannu'r planhigion a hefyd oes modd cael rhywogaeth well a fyddai yn llenwi'r gofod. **Y Clerc i wneud ymholiadau.**	**CLERC**
13.0	**ADRODDIAD IS-BWYLLGOR LLWYBRAU CYHOEDDUS, CYSGODFANNAU BYSIAU A MEINCIAU**	
13.1	Mae angen glanhau ffenestri'r cysgodfanau bysiau. Y Cadeirydd am edrych os byddai yn gallu cael pris rhoi llinellau melyn i lawr ar y maes parcio gan gontractwr tarmac lleol, hefyd pris am greu llwybr tarmac o fewn y cae chwarae ar lan y môr. Dywedwyd hefyd bod mwsog ar balmant rhwng yr Halfway ac Aberpwll yn achosi perygl i gerddwyr - **Y Clerc i anfon at Gyngor Gwynedd.**	**CLERC**
14.0	**CYNLLUN LLIFOGYDD CYMUNEDOL**	
14.1	Cafwyd adroddiad yn dilyn cyfarfod rhai o aelodau'r Cyngor gyda Cefin Edwards o Gyngor Gwynedd ynglŷn â gwaith Rhaglen Rheoli risg arfordirol. Penderfynwyd cadw lein y wal a chyflwyno giatiau lle mae bylchau ar gyfer y "slipways". **Y Clerc i hysbysu'r Swyddog o benderfyniad y Cyngor**.	**CLERC**
15.0	**GWEFAN**	
	Y Gwaith yn symud yn ei flaen. Penderfynwyd byddai adnodd i lawr lwytho i'r wefan o fudd. Byddai taliad oddeutu £100 ei angen ar gyfer yr adnodd. Cytunwyd i wneud hyn.	
	Daeth y cyfarfod i ben oddeutu 09:30	
Llofnod:		Dyddiad: